**AGENDA EITEM: 8**

# AWDURDOD ACHUB A TÂN GOGLEDD CYMRU

**18fed Rhagfyr 2006**

## Y DDARPARIAETH BENSIWN

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Pwrpas yr Adroddiad

**1.** Cyflwynwyd adroddiad Adolygiad Pensiwn i'r Awdurdod Tân ar 23 Hydref 2006 ac un o'r argymhellion oedd paratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod fis Rhagfyr yr Awdurdod, yn manylu ar y symiau y gellir eu dychwelyd o'r Ddarpariaeth Bensiwn i'r cynghorau cyfansoddol.

## Cyflwyniad

**2.** Sefydlwyd trefniadau ariannu newydd ar gyfer Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân yn Lloegr o Ebrill 2006 a bydd cynllun tebyg yn cychwyn yng Nghymru yn Ebrill 2007. O dan y cynllun newydd bydd y trefniadau ar gyfer talu symiau cymudo yn newid ac o ganlyniad ni fydd angen cadw Darpariaeth Bensiwn mor fawr.

**3.** Balans presennol y Ddarpariaeth Bensiwn yw £1,792,366 ar ôl defnyddio £162,200 i ariannu'r gyllideb ar gyfer 2006-07. Erbyn hyn gwnaed asesiad o'r goblygiadau yn y dyfodol a allai effeithio ar y ddarpariaeth, a chyfrifwyd y swm i'w ddychwelyd i'r awdurdodau cyfansoddol.

## Goblygiadau i’r Dyfodol

**4.** Yn ôl yr arwyddion presennol bydd angen cadw £665,000 ar gyfer goblygiadau posibl o ran pensiwn yn y dyfodol. Wedi’u cynnwys yn y swm i’w gadw ar gyfer pensiynau, mae asesiad o’r goblygiadau yn y dyfodol o ran cyfraniadau pensiwn mewn achosion o Salwch, gofynion posibl ar y ddarpariaeth o safbwynt taliadau cymudo yn 2006/07 ac amcangyfrif o’r costau i'r gwasanaeth ar gyfer staff rhan amser sy’n ymuno â’r cynllun pensiwn newydd yn 2007/08.

**5.** Cytunodd aelodau i roi £100,000 o’r neilltu o danwariant 2004/05 ar gyfer darpariaeth i gynnwys costau’r prosiect ac i gyfrannu at sefydlu costau symud y stafell reoli bresennol i system reoli ‘Tri Gwasanaeth’ ar y cyd â’r Heddlu a’r Gwasanaeth Ambiwlans. Mae canlyniadau a chasgliadau’r prosiect wedi’u cynnwys mewn adroddiad ar wahân ar yr agenda. Fodd bynnag y costau ychwanegol, dros y £100,000 a neilltuwyd yn barod tuag at y prosiect sefydlu’r system reoli ‘Tri-Gwasanaeth’, yw £127,000 ac os byddwn yn bwrw ymlaen â’r cynllun, nid oes darpariaeth yn y gyllideb bresennol i gwrdd â’r costau hyn. Felly cynigir ein bod yn ariannu’r costau sefydlu hyn o’r Ddarpariaeth Bensiwn.

## Ad-dalu Cynghorau Cyfansoddol

**6.** Gan ystyried y pwyntiau a nodir uchod, mae’n rhesymol ad-dalu £1,000,000 o'r Ddarpariaeth Bensiwn i’r cynghorau sy’n rhan o’r awdurdod. Dylai dyraniad pob awdurdod fod yn seiliedig ar gyfraniadau 2006/07. Amlinellir manylion y symiau y dylai pob awdurdod eu had-dalu yn y tabl trosodd.

**Ad-dalu Cynghorau Cyfansoddol** *(parhad)*

| Awdurdod | Amcangyfrifon Poblogaeth Canol-Blwyddyn yr Awdurdod 2004 | Swm i'w Ad-dalu £ |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 68,700 | 101,853 |
| Cyngor Gwynedd | 118,100 | 175,093 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 111,800 | 165,752 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 95,600 | 141,735 |
| Cyngor Sir y Fflint | 150,100 | 222,535 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 130,200 | 193,032 |
| | 674,500 | 1,000,000 |

**7.** Nid yw'n bosibl gosod cafeat nac amod ar ad-dalu, ond wrth amlinellu'r cynnig hwn i Brif Swyddogion Cyllid y cynghorau cyfansoddol a chydweithwyr cyllid eraill, cydnabyddir y gallai'r addasiad i'r Setliad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y cynllun pensiwn newydd adael 'bwlch'. Gallai dychwelyd y Ddarpariaeth Bensiwn helpu i ariannu'r 'bwlch' neu, fel arall, gellid ei gadw fel mesur wrth gefn yn erbyn unrhyw newidiadau cynyddol yng nghostau'r Awdurdod Tân yn y dyfodol.

**8.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd Llywodraeth y Cynulliad newydd gyhoeddi y byddai'n rhoi £1.4m tuag at gost y cynllun newydd. Byddai hyn yn cael ei groesawu, a gobeithir na fyddai'n cael ei ddisodli yn y ddadl ar gyllideb Llywodraeth y Cynulliad.

**Argymhellion**

**9.** Bod £665,000 o'r Ddarpariaeth Bensiwn yn cael ei gadw ar gyfer goblygiadau i'r dyfodol o ran pensiynau.

**10.** Bod £127,000 o'r Ddarpariaeth Bensiwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau sefydlu'r system reoli 'Tri-Gwasanaeth' os cytunir y dylid bwrw ymlaen â'r cynllun.

**11.** Bod £1,000,000 o'r Ddarpariaeth Bensiwn yn cael ei ad-dalu i'r cynghorau cyfansoddol.